O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 19 (Cy. 7)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llangollen, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *18 Ionawr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Ionawr 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llangollen, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 18 Ionawr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Llangollen yn Sir Ddinbych a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni wedi eu hatal dros dro drwy hyn ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Ionawr 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau, Terfyn Cyflymder 10 mya a Dim Goddiweddyd Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B5103, i'r gorllewin o Langollen hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, Ffordd Maesmawr, i'r dwyrain o Langollen, Sir Ddinbych.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r terfyn cyflymder 30 mya parhaol, i'r gorllewin o Langollen hyd at ei chyffordd â'r B5103.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r terfyn cyflymder 30 mya parhaol, i'r dwyrain o Langollen hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, Ffordd Maesmawr.